S4C /

# Bwrdd S4C

Cyfarfod 479
10:00, 17 Gorffennaf 2025
Yr Egin, Caerfyrddin

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Guto Bebb [GB], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys (o eitem 2 ymlaen)
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu (o eitem 2 ymlaen)
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol – yn rhithiol

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus (ar gyfer eitem 3)
- Manon Edwards Ahir [MAE], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata (ar gyfer eitem 4)
- Eilir Jones [EJ], Pennaeth Ymchwil Cynulleidfa (ar gyfer eitem 4)
- Endaf Griffiths [EG], Wavehill (ar gyfer eitem 5)
- Rhys Maher [RhM], Wavehill (ar gyfer eitem 5)
- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (ar gyfer eitem 6)

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Gwnaeth GB datgan bod Undeb Amaethwyr Cymru yn noddi cynnwys S4C o'r Sioe eleni.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd**<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd ar yr adroddiad oedd yn amlinellu'r cyfarfodydd yr oedd wedi cynnal ers cyfarfod diwethaf y bwrdd. Rhannodd hefyd wybodaeth ychwanegol gyda'r Aelodau am gyfarfodydd yr oedd wedi'u mynychu yn ystod y dyddiau diwethaf, oedd yn cynnwys cyfarfodydd un-i-un gyda:<br>• Lewis Knights o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol; a<br>• Robert Specterman-Green o'r DCMS. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd hefyd i'r cyfarfod chwarterol rhwng S4C a'r DCMS gael ei gynnal yng Nghaerdydd ar ddydd Mawrth 15 Gorffennaf. Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd y broses y bydd y DCMS yn ei dilyn ar gyfer adolygu Siarter y BBC, a sut y bydd S4C yn cyfrannu at y broses hon.<br><br>Roedd y Cadeirydd wedi cwrdd â Dr Ioan Rees o gwmni Sycol yn ddiweddar er mwyn trafod ei waith gydag S4C i gryfhau'r diwylliant fewnol a darparu hyfforddiant i staff. Bwriad Dr Ioan yw cychwyn rhaglen newydd o hyfforddiant gyda staff S4C ym mis Medi. Yn sgil ei thrafodaeth gyda Dr Ioan, roedd y Cadeirydd wedi ei holi i gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn y gwanwyn, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, yn amlinellu'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â chanlyniadau'r arolygon pwls.<br><br>Dros yr wythnosau diwethaf roedd y Cadeirydd wedi ymweld â gwahanol cwmnioedd cynhyrchu sy'n cyflenwi cynnwys i S4C. Anogwyd Aelodau i drefnu ymweliadau tebyg, yn ddelfrydol mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o unrhyw ymweliadau fyddai'n digwydd.<br><br>[ymunodd MW â'r cyfarfod] | |
| 3. | **Strategaeth 2030**<br><br>Wrth i GE gyflwyno Strategaeth 2030, nodwyd fod y Bwrdd eisoes wedi gweld drafft o'r sgerbwd yn ei gyfarfod diwethaf. Canmolwyd MW am ei waith – gyda chymorth GE a GP – wrth drosi'r sgerbwd yn dogfen sy'n barod i'w chyhoeddi.<br><br>Trafodwyd pwysigrwydd sicrhau bod y Strategaeth yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn dod â phobl ynghyd. Pwysleisiwyd y bartneriaeth â chwmnïau cynhyrchu, a bod y cyfarfodydd rheolaidd rhwng S4C a TAC yn hollbwysig yn hynny o beth. Nodwyd y byddai'r Strategaeth yn cael ei rhannu gyda TAC cyn ei chyhoeddi.<br><br>Codwyd cwestiynau ynghylch amlygrwydd elfennau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Strategaeth. Er bod cyfeiriadau iddynt yn y cynllun gweithredu mewnol sy'n cefnogi'r Strategaeth, cydnabuwyd yr angen i gyfleu'r egwyddorion perthnasol yn glir wrth fynd ati i gyfathrebu newydd yn allanol.<br><br>Trafodwyd hefyd a ddylai'r Strategaeth gynnwys cyfeiriad mwy strategol at effaith hirdymor Deallusrwydd Artiffisial. Cadarnhawyd y bydd S4C yn cyhoeddi canllawiau ar Ddeallusrwydd Artiffisial ym mis Medi ar gyfer y sector.<br><br>Pwysleiswyd y bydd is-strategaethau'n deillio o'r Strategaeth newydd hon. Gofynnwyd pryd y bydd yr is-strategaeth Cynnwys yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd – atebwyd y bydd hyn yn digwydd ym mis Hydref.<br><br>Holwyd am y cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth. Nodwyd y byddai cynnal digwyddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn syniad da o ran gweledEdd a chysylltiad â'r cyhoedd, ond roedd yr amserlen yn heriol. Awgrymwyd y byddai cynnal digwyddiad penodol yn yr Hydref, gyda gwahoddiad i randdeiliaid allweddol, fod yn opsiwn mwy realistig ac effeithiol.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Strategaeth, ar y ddealltwriaeth y bydd mân newidiadau yn sgil yr adborth a dderbyniwyd, ac y bydd y drafft terfynol yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | [gadawodd MW y cyfarfod] | |
| 4. | [ymunodd EJ a MEA â'r cyfarfod]<br><br>**Trafodaeth ar ffigurau gwylio cynnwys S4C**<br><br>Cyflwynodd EJ ei bapur ynghylch sut mae S4C yn mesur ffigyrau gwylio, gan grybwyll y prif agweddau. Nodwyd bod S4C, fel darlledwyr eraill, wedi bod yn ymrafael â sut i fesur perfformiad ar draws gwahanol lwyfannau.<br><br>Trafodwyd cywirdeb mesurau BARB. Er bod BARB yn darparu'r ffordd safonol o fesur ffigurau gwylio yn y diwydiant, mae rhai cynhyrchwyr yn teimlo bod nifer eu gwylwyr yn uwch na'r ffigurau a adroddir.<br><br>Cydnabyddir bod systemau mesur presennol BARB yn gallu arwain at eithafion, ac felly mae S4C yn dewis edrych ar gyfartaledd gwylio ar draws cyfresi yn hytrach na phob pennod yn unigol, yn ogystal â dadansoddi ar draws grwpiau oedran. Mae BARB, yn y cyfamser, yn ymchwilio i fesur gwylio mewn dulliau amgen ar draws amryw o lwyfannau digidol - ond mae'r broses hon yn dal i fynd rhagddi.<br><br>Nodwyd hefyd nad yw S4C yn dibynnu ar ddata BARB yn unig i asesu perfformiad cynnwys - mae sawl dull monitro ychwanegol yn cael eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys panel ymateb, galwadau ffôn gan wylwyr, ac ymwneud ar gyfryngau cymdeithasol.<br><br>Er bod cynnydd amlwg mewn ymgysylltiad â chynnwys Cymraeg ar draws llwyfannau, pwysleisiwyd yr angen am fesurau mwy cadarn o ran effaith. Mae hefyd angen hyrwyddo cynnwys Cymraeg yn well, gan sicrhau gwybodaeth glir am raglenni a'u hamseroedd darlledu. Mae hyn yn hanfodol i gynyddu gwelededd ac i annog mwy o wylio ar draws pob grŵp oedran. Trafodwyd hefyd sut mae'r Strategaeth newydd yn anelu at ddenu cynulleidfaoedd eang, heb or-bwysleisio un grŵp dros y llall.<br><br>O ran cynnwys digidol yn unig, cadarnhawyd fod gan S4C ddata gwylio o Clic ac iPlayer, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys llwyfannau eraill megis YouTube. Mae'r Tîm Ymchwil Cynulleidfa hefyd yn parhau i archwilio dulliau mesur gwell i werthuso perfformiad cynnwys ar draws ystod ehangach o lwyfannau.<br><br>[gadawodd EJ a MEA y cyfarfod] | |
| 5. | [ymunodd EG a RhM â'r cyfarfod dros Teams]<br><br>**Canlyniad Asesiad Effaith Economaidd a Chymdeithasol Wavehill**<br><br>Cyflwynodd EG a RhM eu sleidiau, gan nodi nad oedd Michael Pang – a fu'n arwain ar y gwaith modelu economaidd – yn gallu bod yn bresennol, ac felly na fyddai modd ateb pob cwestiwn technegol yn llawn.<br><br>Defnyddiwyd data S4C a'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ONS) i fesur cyfraniad ac effaith economaidd S4C yn 2024–25. Y prif newid ers yr astudiaeth flaenorol yn 2022–23 oedd bod gwaelodlin bellach ar gael, oedd yn caniatau cymhariaeth uniongyrchol rhwng canlyniadau asesiadau Wavehill. Er i'r rhagdybiaethau newid ychydig rhwng yr asesiadau hyn, parhaodd y model mewnbwn-allbwn yn gyson. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Canfu'r astudiaeth fod effaith GVA (Gwerth Ychwanegol Gros) S4C wedi lleihau mewn termau real, yn bennaf oherwydd effaith chwyddiant ac incwm sefydlog o ffi'r drwydded am ddwy flynedd o Ebrill 2022, oedd yn lleihau gwerth gwirioneddol y buddsoddiad cyhoeddus.<br><br>Holwyd a oedd GVA yn cynnwys buddion anuniongyrchol i gyrff cyhoeddus (megis cyfraniad S4C i'r sector addysg yng Nghymru). Nodwyd astudiaeth achos ar *Adnodd* yn yr adroddiad, sy'n amlygu'r bartneriaeth strategol rhyngddynt ac S4C i gyd-ddatblygu cynnwys addysgol. Er nad oes modd pennu gwerth ariannol i hyn, mae'r naratif yn gadarnhaol.<br><br>Codwyd hefyd gwestiwn am rôl S4C wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Er nad oes dull meintioli clir, roedd asesiad blaenorol Wavehill yn cadarnhau y byddai sefyllfa'r Gymraeg yn wannach heb gyfraniad S4C, ac nid yw'r asesiad yna wedi newid yn hynny o beth. Awgrymwyd plethu'r dimensiwn ieithyddol i mewn i'r astudiaethau achos yn yr adroddiad newydd, gan adlewyrchu statws swyddogol S4C fel partner Cymraeg 2050 (trwy Femorandwm o Ddealltwriaeth). Mae hyn yn tanlinellu cyfraniad sylweddol a strategol i'r Gymraeg, gan gynnwys cefnogi cadarnleoedd Cymraeg trwy fuddsoddiad uniongyrchol a chreu swyddi.<br><br>Cyfeiriwyd at bwyslais Llywodraeth y DU ar yr egwyddor 'creu lleoedd', a nodwyd sut mae S4C yn cyfrannu'n uniongyrchol at y weledigaeth honno. Yn adroddiad blaenorol Wavehill, defnyddiwyd dull dadansoddi o'r enw '*location quotients'* i archwilio dosbarthiad daearyddol gweithgarwch S4C. Nodwyd nad oedd y patrwm hwnnw wedi newid yn sylweddol ers hynny – ac yn yr un modd, mae dosraniad cartrefi staff S4C wedi parhau'n gymharol gyson.<br><br>Eglurodd yr Ysgrifennydd y camau nesaf: roedd drafft adroddiad o adroddiad naratif Wavehill eisoes yn bodoli, ond roedd angen mewnbwn pellach gan staff S4C cyn ei rannu gyda'r Bwrdd. Y nod yw cyhoeddi'r adroddiad yn yr hydref, gan gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer cyfrannu i drafodaethau ar adolygiad siarter y BBC a threfniadau ariannu darlledu cyhoeddus yn y DU.<br><br>[gadawodd EG a RhM y cyfarfod] | |
| 6. | [ymunodd NB â'r cyfarfod]<br><br>**Setliad Cyflog 2025–26**<br><br>Cyflwynodd NB ei phapur a oedd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Taliadau ar 09 Gorffennaf 2025. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd gymeradwyo setliad cyflog o 3.1% i staff (gan gynnwys staff llawrhydd) ar gyfer 2025–26.<br><br>Adroddodd NB ei bod wedi cael trafodaethau cadarnhaol gyda Bectu ynghylch y setliad arfaethedig – a'r ymrwymiadau pellach roedd Bectu wedi holi amdanynt gan S4C fel rhan o'r setliad, gan gynnwys mewn perthynas â chyflwyno trefniadau datblygiad cyflog. Byddai Bectu yn argymell bod eu haelodau'n derbyn y setliad trwy bleidlais dros yr wythnosau nesaf.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r setliad cyflog arfaethedig.**<br><br>[gadawodd NB y cyfarfod] | |
| 7. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd ar 25/06/25)<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (a gynhaliwyd ar 27/06/25)<br>• Y Pwyllgor Taliadau (a gynhaliwyd ar 09/07/25)<br>• Y Pwyllgor Achosion<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>Yn ystod y drafodaeth ar 25 Mehefin 2026, adnabuwyd yr angen i adolygu'r Strategaeth Fasnachol.<br><br>Roedd y Prif Weithredwr wedi cychwyn trafodaethau mewnol ynghylch trywydd y Strategaeth Fasnachol i'r dyfodol, ac fe fyddai argymhellion yn cael eu cyflwyno i'w trafod yn ystod Diwrnod Strategol ym mis Medi 2025.<br><br><u>Y Pwyllgor Archwilio a Risg</u><br><br>Nodwyd bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi cwblhau'r archwiliad allanol yn ffurfiol, ac fe gyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C ar gyfer 2024–25 yn gynt y bore hwnnw. Roedd nawr bwriad cynnal cyfarfod rhwng swyddogion S4C a'r NAO yn yr Hydref i adnabod pa wersi sydd angen eu dysgu ar gyfer yr archwiliad allanol nesaf. | |
| 8. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Adroddiad yr UDA</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Gweithredu'r Safonau Iaith yn ystod 2024-25</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr Adroddiad i'w gyhoeddi.**<br><br><u>Diweddariad blynyddol ar Iechyd a Diogelwch</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Ystadegau Pobl a Diwylliant</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 478, a gynhaliwyd ar 27/06/2025.**<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau. | |
| 9. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod yn erbyn Cod Diwylliant S4C**<br><br>Gwnaeth DLP arwain gwerthusiad cryno ar sut oedd y Bwrdd wedi cynnal gwerthoedd y Cod Diwylliant yn ystod y cyfarfod. Diolchwyd i bawb am gynnal trafodaethau da a chadw at amser.<br><br><u>Prif Swyddog Technegol</u><br><br>Cynhelir cyfweliadau ar gyfer Prif Swyddog Technegol ar 29 Gorffennaf 2025. Gan fod posibilrwydd y byddai'r unigolyn llwyddiannus yn dod yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain, gofynnwyd am Aelod Anweithredol o'r Bwrdd i fod ar y panel penodi. Holwyd i'r Aelodau Anweithredol hysbysu'r Ysgrifennydd o'u hargaeledd cyn gynted â phosib. | |